# *Cyngor Tref Llandeilo Fawr*

# *Llandeilo Fawr Town Council*

**Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher, 8fed Hydref, 2008 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.15 pm**

**Presennol:** Cyng Ros Bellamy, Y Dirprwy Faer Cyng Charlotte Leadbeater
Cyng Colin Jenkins, Cyng Christopher Parish, Cyng Hugh Towns,
Cyng Ieuan Gwyn,
Mr Roger Phillips, Clerc y Dref,
Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid,
Mr Des Davies, Swyddog Technegol.

**Ymddiheuriadau :** Y Maer Cyng Edward Thomas, Cyng Julia Jones, Cyng Dawn Wallace, Cyng Richard Wallace

**Cof 157/ Hydref/ 08 Anfonebau i'w talu.**

| | | |
|---|---|---|
| WCVA (Gweinyddiaeth Medi 2008) | £ | 35.54 |
| WCVA (Cyflogau Medi 2008) | £ | 167.40 |
| Orchardweb (gwe-letya) | £ | 56.39 |
| LA Warehouse (Carped swyddfa) | £ | 298.00 |
| Ymddiriedolaeth y Neuadd Ddinesig (llogi ar gyfer derbyniad 10.9.08) | £ | 55.00 |
| Clerc y Dref (inc argraffu) | £ | 54.99 |
| Relm Signs (bathodynnau enw/baner) | £ | 104.00 |
| Konica Minolta (stand llungopïwr) | £ | 123.38 |
| Media Wales (3000 o Lyfrynnau'r Dref) | £ | 423.00 |

Penderfynnwyd y dylid talu'r rhain. Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

**Cof 158 / Hydref/ 08 Incwm a Dderbyniwyd Medi 2008**

| | | |
|---|---|---|
| Archebiant CSC (ail daliad) | £ | 15,891.33 |
| Cyfrif llog | £ | 0.20 |
| Llog y cyfrif cynilo | £ | 61.74 |
| Llog ar y bond buddsoddi | £ | 592.18 |

**Cof 159/ Hydref / 08 Balansau'r Cyfrifon**

Cofnodwyd a **Derbyniwyd** yr adroddiad canlynol ar gyllid y Cyngor:

| | | |
|---|---|---|
| LTC CYFRIF CYFREDOL ( 30.9.08) | £ | 7,177.05 |
| LTC CYFRIF CYNILO ( 27.9.08) | £ | 7,903.03 |
| BOND LLOG UCHEL (llog i'w ychwanegu) (wedi'i fuddsoddi tan 12.12.08) | £ | 51,115.17 |
| LTC CYFRIF TREULIAU'R MAER (20.8.08) | £ | 1,810.67 |

Noder : fel ar 30.9.08 sieciau heb eu casglu £ 8,068.86

**Cof 160/ Hydref / 08 Materion Ariannol Eraill**

1. Archwiliadau Ariannol Gorffennaf – Medi 2008
Adroddodd y Cadeirydd, Cyng Ros Bellamy ei bod hi wedi cwblhau'r archwiliadau trwy archwilio 7 taliad ac roedd pob un yn gywir. Mae anfoneb ar gyfer Band Porth Tywyn am £400 in lieu o'r ffi ar gyfer yr adloniant yn nathliadau canmlwyddiant parc Penlan ar goll. Bydd y Clerc yn edrych ar hyn.
Fel y cytunwyd yn y Cyfarfod Blynyddol talwyd y ffioedd aelodaeth canlynol.
a) Aelodaeth Flynyddol HOWLTA (siec 1219 ar 2.6.08) £10
b) Aelodaeth Flynyddol Un Llais Cymru (siec 1220 ar 24.6.08) £222.

2. Adroddiad ar y Gyllideb tan ddiwedd Medi.
Cyflwynodd y Swyddog Cyllid ei adroddiad a dderbyniwyd ac fe'i argymhellwyd i'r Cyngor Llawn.

3. Rhagolygon Tair Blynedd i'r Gyllideb.
Cyflwynodd y Swyddog Cyllid ei ragolwg tair blynedd i'r Gyllideb a phenderfynodd y Pwyllgor i gadw at yr amcanestyniadau fel y cawsant eu rhoi. Wnaeth y Cyng Ieuan Gwyn atgoffa'r cyfarfod y dylai amcangyfrifon am unrhyw brosiectau arfaethedig yn ystod 2009-10 fod yn barod erbyn cyfarfod mis Tachwedd.

4. Treialon Cŵn Defaid y Byd – Parêd a Derbyniad
Cyflwynodd y Clerc ddadansoddiad o'r costau a amcangyfrifwyd.
Derbyniwyd y rhain gan y Cyngor oddi fewn i'r gyllideb a gytunwyd arni.
Cytunwyd ar y rhoddion canlynol i fudiadau a gynorthwyodd yn ystod y digwyddiad :

| | |
|---|---|
| Côr Sainteilo | £60 |
| Dawnswyr Penrhyd | £60 |
| Ffermwyr Ifanc Llandeilo | £75 |
| Ambiwlans Sant Ioan | £25 |
| Ford Gron Llandeilo | £25 |
| Clwb Rotari Llandeilo | £25 |
| Ysgol Gymraeg Teilo Sant | £25 |
| Ysgol Gynradd Llandeilo | £25 |
| Sgowtiaid Llandeilo | £25 |
| Geidiaid Llandeilo | £25 |

5. Dywedodd y Swyddog Technegol fod yr is-grŵp goleuadau Nadolig wedi archebu goleuadau Nadolig ychwanegol, ond fe fyddai'r costau yn cadw oddi fewn i'r gyllideb.
Dywedodd fod Mr Charles Sams wedi cyflwyno costau ar gyfer gwneud y gwaith trydan yn Neuadd y Sir. Gan fod y rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei wneud ar gais Cambria, penderfynnwyd ei argymell i'r Cyngor Llawn bod y Cyngor yn gwneud cyfraniad o £1500 tuag at gyfanswm y gost o £5,900.
Roedd pawb o blaid.

Dywedodd Mr Davies fod Mr Cledwyn Moses wedi cynnig amcan bris o £125 i archwilio i achos y dŵr sy'n mynd i mewn i bortsh blaen Neuadd y Sir. Cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylid cymeradwyo'r gwaith hwn. Eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

**Cof 161/ Hydref / 08 Gohebiaeth Parthed Cyllid**

1. Mae Mr Ken Day, Ymddiriedolaeth y Neuadd Ddinesig, mewn ymateb i gais y Cyngor am ddadansoddiad o'r costau sydd ynghlwm wrth drefnu'r Daith Gerdded Noddedig er lles Elusennau Clefyd y Siwgr wedi darparu'r manylion angenrheidiol. Gofynnodd yr Ymddiriedolaeth am rodd i helpu i dalu'r costau sydd ynghlwm wrtho sef £168. Cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylai'r Ymddiriedolaeth roi £168. Eiliwyd gan y Cyng Chris Parish. Roedd pawb o blaid argymell hyn i'r Cyngor Llawn.
2. Cyngor Tref Cydweli – gofyn am gymorth ar gyfer apêl y Lluoedd Prydeinig dramor. Roedd pawb yn gytûn y dylai'r pwyllgor argymell i'r Cyngor Llawn na ddylid cefnogi eu cais.

**Cof 162 / Hydref / 08 Doedd yna ddim rhagor o eitemau o fusnes**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15 pm.